Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhelir am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **14 Ionawr 2020** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-01/20: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Eirwyn Williams

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-01/20 Ymddiheuriadau:
Cyng. Robert T Price; Cyng. Sian Williams

3-01/20: Datgan diddordeb

4-01/20 Cadarnhau cofnodion mis Rhagfyr 2019
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-01/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6-01/20: Gohebiaeth

a. Cais i wasgaru llwch ym mynwent Penymaes – ystyriaeth o lythyr i Gadeirydd y Cyngor Tref, Rhagfyr 2019
Roedd cais ysgrifenedig wedi dod i law am yr hawl i wasgaru llwch a gosod plac gan aelod o'r cyhoedd a oedd wedi ei geni a'i magu yn y dref, a'i rheini wedi'u claddu yno.

Penderfyniad:

Cytunwyd i roi caniatâd ysgrifenedig ar yr amod y byddai'r trefniadau ar gyfer gwasgaru a gosod plac yn nwylo trefnydd angladdau. Y Clerc i sgwennu ar ran y Cyngor Tref.

b. Arwyddion Tai Newydd Ger y George - hysbysebion gan y Cwmni Datblygu - e-byst Swyddog Gorfodaeth Cynllunio - 30 Rhagfyr a phetisiwn gan drigolion
Roedd manylion wedi eu cylchredeg am gonsyrn y swyddog gorfodaeth am yr arwyddion oherwydd y cynnwys yn cyfeirio at fflatiau gwyliau a concierge a hefyd y petisiwn gan drigolion oherwydd ansawdd gwael yr arwyddion a'u bod yn anharddu'r Stryd Fawr..

Penderfyniad:
Cytunwyd i gefnogi'r consyrn gan y Swyddog Gorfodaeth a hefyd y petisiwn gan drigolion ac y dylai'r Clerc sgwennu i gadarnhau hyn a chyflwyno copi o'r petisiwn i Gyngor Gwynedd.

c. Gwasanaethau Bysiau annigonol i Ysbyty Alltwen - e-bost gan Glerc Cyngor Tref Porthmadog - 18 Rhagfyr 2019

Roedd llythyr wedi ei gylchredeg yn nodi consyrn Cyngor Tref Porthmadog am ddiffyg y gwasanaeth bysiau i Ysbyty Alltwen o dref Porthmadog. Roedd y Cyngor Tref yn hapus gyda'r gwasanaeth o Griccieth.-

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth ac i ddanfon ymateb i Gyngor Tref Porthmadog i nodi ei gonsyrn.

d. Cynhadledd Gwobrau Un Llais Cymru Dydd Iau 26ain Mawrth 2020 - e-bost Un Llais Cymru

17 Rhagfyr 2019

Roedd manylion wedi ei gylchredeg - gwahoddiad i gynnig am wobrau o dan nifer o gategorïau gan aelodau o'r Cyngor neu grwpiau/unigolion allanol.

Penderfyniad:
I roi ystyriaeth i ymgeisio.

e. Dogfen Ymgynghori - Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig - e-bost 18 Rhagfyr 2019

Roedd manylion wedi eu cylchredeg am newidiadau i'r ffioedd ar gyfer chynllunio a cheisiadau, yn ychwanegol i gynnwys ffi am Dystysgrifau Datblygu Amgen Priodol. Roedd yn cynnig system ffioedd sy'n adennill y costau yn llawn i'r Cynghorau Sir.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth.

f. Cymru a Diwrnod VE – ebost Ionawr 2020
Roedd gwybodaeth yn gofyn am gydnabyddiaeth rôl menywod yn yr Ail Rhyfel Byd wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth, gan nodi y bydd rôl menywod yn cael cydnabyddiaeth yn nhrefniadau y dydd yng Nghriccieth.

g. Gwasanaeth Owl Cymru - e-bost 18 Rhagfyr 2019

Roedd manylion wedi ei gylchredeg am opsiynau i gadw gwasanaeth OWL Cymru i fynd a fyddai'n trosglwyddo'r gost i Gynghorau Tref a Chymuned.

Penderfyniad
Nid oedd cefnogaeth i ariannu'r cynllun.

7 **01/20: Ceisiadau Cynllunio**

a. C19/1154/35/DT Estyniad i fodurdy presennol ynghyd a newidiadau allanol i'r adeilad er mwyn gallu eu ddefnyddio fel ystafelloedd yn atodol i'r tŷ preswyl - Bron y Foel, Lôn Tynllan, Criccieth, LL52 0LB

Penderfyniad:
Dim gwrthwynebiad

8-01/20: Llenwi seddau gwag y Cyngor Tref

Nodwyd bod y rhybudd o ddwy sedd wag wedi cael ei rhoi ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref a'r safle We am y cyfnod penodol er mwy rhoi siawns i etholwyr ddefnyddio eu hawl i ofyn am etholiad. Os na fydd cais wedi dod i law erbyn y dyddiad cau, sef 20 Ionawr bydd hawl gan y Cyngor i gyfethol i'r seddau gwag.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad ac os na fydd cais am etholiad cytunwyd y dylai'r Clerc rhoi'r rhybudd priodol am fwriad y Cyngor i lenwi'r seddau wag drwy gyfethol, gan wahodd ceisiadau erbyn 29 Chwefror 2020.

9-01/20: Cyfrif Banc y Cyngor Tref

Cwyn i'r HSBC – nodwyd bod y Clerc dal yn aros am ymateb gan yr HSBC ond bod £300 wedi ymddangos yn y cyfrif banc gan yr HSBC heb lythyr o esboniad.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth.

10-01/20: Diweddariad Cyllid 2019-20

Roedd y Clerc wedi cylchredeg adroddiad cyllidol i'r holl aelodau. Roedd yn dangos Incwm a Gwariant cyllid yn erbyn y gyllideb fyny at ddiwedd Rhagfyr 2019 a'r cysondeb banc am y cyfnod.

Nodwyd bod £42,819.68 wedi'i wario (gan gynnwys TAW) allan o'r £80,160 a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Roedd £44,349.13 yn y cyfrif 'Community Account' a £30,494.01 yn y cyfrif 'Money Manager'.

Penderfyniad:
Derbyn yr adroddiad.

11-01/20 Praesept 2020-21

Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi penderfynu cadw'r praesept ar yr un lefel a'r flwyddyn gyfredol, sef £42,000 ac y bydd y Clerc yn sgwennu at Gyngor Gwynedd i gadarnhau hyn.

Penderfyniad:
Y Clerc i sgwennu at Gyngor Gwynedd i gadarnhau praesept o £42,000 ar gyfer 2020-21.

12-01/20 Goleuadau Nadolig 2020

Yn y cyfarfod diwethaf cytunwyd y dylid neilltuo tua £8,400 i brynu colofnau Nadolig allan o gyllideb 2019-20 a fyddai yn golygu gôr wariant yn y gyllideb o £5,000 a osodwyd ar gyfer goleuadau Nadolig.

Penderfyniad:
Cytunwyd y dylid prynu'r goleuadau yma drwy RJ Electrics sydd yn storio'r goleuadau yma yn flynyddol ac yn cynnig gwasanaeth arbennig i'r Cyngor Tref ac nad oes rheswm i ddilyn y Rheolau Ariannol i gael 3 cwot gan gwmnïoedd gwahanol gan fod y prisiau yn rhai safonol catalog. Cytunwyd hefyd i holi am gost rhoi goleuadau Nadolig newydd ar un o'r coed gan fod y goleuadau yn hen.

13-01/20 Ceisiadau Cyfraniadau Ariannol

a. Penderfyniadau ar geisiadau gan y canlynol am gyfraniadau a ystyriwyd o dan Adran 137 (4)

(a) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 pŵer 137.

Theatr Bara Caws - dim cyfraniad

Clwb Pêl Droed Llanystumdwy – dim cyfraniad

Cwmni Drama Llanystumdwy - £200

Criccieth yn Ei Blodau – £492.26

Clwb Tenis Criccieth – £357.60

Eisteddfod Genedlaethol Cymru - Pwyllgor Apêl Leol - £2500

b. Penderfyniad ar gais gan y canlynol am gyfraniad a ystyriwyd o dan bŵer A145

Neuadd Goffa Criccieth – £5000

Sieciau i'w codi yn y cyfarfod nesaf.

14-01/20 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Jet sgis

Roedd y Clerc wedi sgwennu yn dilyn y cyfarfod diwethaf i ofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad a'u cynlluniau ar gyfer y tymor nesaf. Roedd yr ymateb a dderbyniwyd yn cyfeirio at gofnodion Pwyllgor yr Harbwr 8 Hydref 2019 (oedd wedi ei chylchredeg) a oedd yn cyfeirio at yr angen i'r cyhoedd adrodd am unrhyw ddigwyddiad o gonsyrn iddynt a bod y rheoliadau yn cael eu hadolygu. Nid oedd yr ymateb yn cyfeirio am gynlluniau Cyngor Gwynedd i wella rheolaeth o'r dyfroedd.

Penderfyniad:
Cytunwyd i ysgrifennu eto at y swyddog i fynegi bod y Cyngor Tref yn ofnadwy o siomedig yn yr ymateb i'r digwyddiad peryglus iawn a oedd wedi digwydd yng Nghriccieth Awst 2019 a'r angen am well rheolaeth o'r dyfroedd gan gynnwys gwella ansawdd y "buoys" a hefyd sicrhau eu bod wedi'u gosod allan ynghynt yn y tymor yn 2020 ac yn sicr erbyn y Pasg. Bydd copi o'r petisiwn yn cael ei ddanfon hefyd.

b. Tai Fforddiadwy

Aros am adroddiad

c. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell –

Nodwyd y bydd Adroddiad terfynol yn barod erbyn mis Chwefror.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth

Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio maes o law.

15-01/20 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell
Aros am ymateb gan Gyngor Gwynedd

16-01/20 Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Aros am adroddiad nol gan Gyngor Gwynedd.

17-01/20 Trafnidiaeth yng Nghriccieth

Nid oedd yr arwydd newydd ar gyfer y maes parcio yn ei le eto.

Penderfyniad:

Y Clerc i sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd.

18-01/20 Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Mynegwyd consyrn am gyflwr y gwrych o'r rheilffordd, heibio'r ardd wyllt a draw am Heol Hen Bont oherwydd ansawdd y cynnal a chadw ohono gan Gyngor Gwynedd.

Penderfyniad:

Y Clerc i sgwennu am dri cwot ar gyfer cost ei dorri ac adrodd nôl i'r Cyngor Tref.

19-01/20 Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

20-01/20 Torri coed yng Nghriccieth
Nodwyd y bydd y Cyng. Phil Jones yn cysylltu gydag arbenigwr i drefnu asesiad coed ar gyfer y dref fel y cytunwyd eisoes.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

21-01/20 Meinciau Tref Criccieth
Dim byd i'w adrodd

22-01/20 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11
Roedd y Clerc wedi ysgrifennu eto at y Swyddog Cyngor Gwynedd. – aros am ymateb.

Penderfyniad:.
Y dylai'r Clerc ysgrifennu llythyr arall ar y Swyddog yng Nghyngor Gwynedd.
23-01/20 Gweddi Agoriadol
Trafodwyd a ddylid parhau gyda'r Weddi Agoriadol ar gychwyn pob cyfarfod

Penderfyniad:
Cytunwyd trwy bleidlais mwyafrif i hepgor y Weddi Agoriadol ac y dylid cyfeirio at y Cod Ymddygiad Aelodau ar gychwyn pob cyfarfod.

24-01/20: Y Rheolwr Pensiynau
Nodwyd bod gofyn i'r Cyngor ail ddatgan y sefyllfa gyda'r Rheolwr Pensiynau

Penderfyniad:.
Y Clerc i gwblhau'r broses ar ran y Cyngor Tref.

25-01/20 Derbyniadau
HSBC - £300

26-01/20: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £34.09(siec 101376)
- Cyflog y Clerc (Rhagfyr) £755.66 (siec 101377)
- RJ Electrics (tynnu goleuadau Nadolig) £360.00 (siec 101378)*

* Anfoneb ychwanegol ers cyhoeddi'r agenda

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 11 Chwefror 2020**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **3 Chwefror 2020**